

Alps > Llythyr Newyddion Gwanwyn 2017



Alps Connect

Ym Medi 2017 rydym yn cyflwyno gwasanaeth rhyngweithiol newydd ar gyfer pob ysgol a choleg > Alps Connect

Credwn y bydd Alps Connect yn chwildroi sut gallwch rhyngweithio gyda'ch data Alps. Mae Connect ar gael ar gyfer CA4 a ChA5 ac mae'n rhoi mynediad llawn ar-lein sy'n llwyr rhyngweithiol i ysgolion a cholegau i'w hadroddiadau Alps a'u data monitro o fewn blwyddyn. Gyda Connect, mae'n hawdd gwneud dadansoddiad trylwyr ar lefel y myfyriwr, y pwnc ac yn gyffredinol.

Ymwelwch â ni ar-lein i ddysgu mwy am Alps Connect ar www.alps.education/connect

Gallwch hefyd fynegi eich diddordeb trwy ein gwefan er mwyn derbyn disgownt o 10% ar Alps Connect.

Byddwn yn cysylltu ag ysgolion a cholegau yng Nghymru gyda manylion pellach am Alps Connect yn ystod yr wythnosau nesaf.

CYFRES GYMREIG ALPS

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr ysgolion ar draws Cymru sy'n defnyddio adroddiadau Alps ar gyfer CA5. Cyn belled eleni rydym wedi cynhyrchu dros 480 o adroddiadau ar gyfer mwy na 140 o ysgolion a cholegau yng Nghymru, ac rydym wedi cynnal mwy na 100 o sesiynau hyfforddi Arolwg Strategol. Plesiwyd ni'n fawr iawn gan yr ymateb anhygoel o galonogol oddi wrth ein cydweithwyr Cymreig i adroddiadau a hyfforddiant Alps.

Gyda'r diwygiadau sydd ar y gweill gan y Llywodraeth, a'r dargyfeiriad rhwng y modelau cwricwlwm Seisnig a Chymraeg, byddwn yn adolygu ein gwasanaethau er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y dadansoddiad mwyaf ymarferol a pherthnasol ar gyfer ein hysgolion a'n colegau. Yn ystod Hydref 2017 ni fyddwn yn ail-feincnodi adroddiadau Alps ar gyfer ysgolion a cholegau Cymreig, ond byddwn yn edrych ar hyn eto ar gyfer 2018.

Yn Lloegr, bydd ein hadroddiadau'n cynnwys meincnodau pwnc newydd, wedi'u seilio ar y data Seisnig diweddaraf. Gan fod y data hwn yn cynnwys y cwricwlwm Seisnig newydd, teimlwn bydd cynnal y meincnod cyfredol yng Nghymru'n cynnig adroddiad mwy defnyddiol ar gyfer ysgolion a cholegau Cymreig.

DIWEDDARIADAU ALPS - CYMRU

Un o gryfderau Alps yw'r cysondeb a gynigir gan ein system dros amser. Mae ysgolion a cholegau'n archebu Alps bob blwyddyn oherwydd eu bod yn gwybod fod ein dadansoddiad yn cynnig darlun dibynadwy a dilys o gyflawniad o un flwyddyn i'r nesaf.

Yn ystod Hydref 2017 bydd ein hadroddiadau ar gyfer Cymru'n cynnwys:

- Meincnod ar wahân o'n hadroddiadau o'i gymharu ag ysgolion a cholegau Seisnig
- Meincnod newydd ar gyfer Bagloriaeth Cymru (oherwydd y system graddio newydd)

Am fwy o fanylion ewch i'n gwefan (www.alps-va.co.uk/latest) neu ffoniwch ni heddiw ar 01484 887600

...parhad drosodd



IS 621807

KS4 & KS5 Performance Systems



The Student Centred Approach

CYNLLUNIO AR GYFER Y FLWYDDYN GYDAG ALPS

gan Karen Woolven



Un o'r elfennau pwysicaf ar gyfer unrhyw sefydliad llwyddiannus yw cynllunio ymlaen llaw. O safbwynt addysgol, mae hyn yn golygu edrych tuag at y cylchred academiaidd nesaf – wrth barhau i ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth yn y cylchred cyfredol. Mae ysgolion a cholegau sy'n defnyddio Alps yn canfod bod ein system yn dilyn y cylchred academiaidd hwn yn agos, gydag adegau allweddol yn y flwyddyn pan fod ein hadroddiadau a'n hyfforddiant fwyaf effeithiol.

Mai – Archebwch hyfforddiant gydag Alps ar gyfer tymhorau'r haf neu'r hydref

Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o ddefnyddio eich adroddiad Alps yw ei gyfuno gyda'n hyfforddiant Arolwg Perfformiad Strategol graenus. Cynhelir y sesiynau hyn eich canolfan gan hyfforddwr Alps profiadol ac fe'u seilir ar eich adroddiadau eich hunain. Galwch archebu dros y ffôn, trwy e-bost neu ar-lein ar www.alps-va.co.uk/booktraining

Mehefin – Lawrlwythwch y fersiynau 2017 diweddaraf o feddalwedd Alps ar gyfer CA4 a CA5

Mae ein meddalwedd ADCS rhad ac am ddim ar gael i'w lawrlwytho ym Mehefin. Mae lawrlwytho'n gynnar yn rhoi amser i chi ymgyswrtu gyda'r system cyn Diwrnod Canlyniadau. Dylech bob amser wirio'r wefan (www.alps-va.co.uk/data) er mwyn sicrhau bod gennych y fersiwn ddiweddaraf.

Gorffennaf – Dechreuwch goladu data er mwyn paratoi am Ddiwrnod Canlyniadau

Ar gyfer CA4 mae hyn y golygu coladu sgorau manwl CA2 eich myfyrwr. Ar gyfer CA5 gallai hyn olygu sicrhau bod gennych sgorau TGAU cyfartalog ar gyfer y myfyrwr hynny nad oeddent wedi eistedd eu harholiadau TGAU gyda chi. Os mai dyma eich blwyddyn gyntaf gydag Alps gallwch hefyd goladu eich data hanesyddol ar gyfer blynyddoedd blaenorol cyn Diwrnod Canlyniadau.

Awst – Llwythwch eich data canlyniadau i fyny i Alps

Os ydych yn llwytho eich data i fyny i Alps cyn gyntaf ag y mae ar gael, byddwn yn anelu at ddarparu eich adroddiad mewn pryd ar gyfer dechrau'r tymor ym Medi – rydym yn anfon pob adroddiad Alps o fewn 8 diwrnod gwaith o dderbyn eich data.

Dechrau Medi – Adolygwch eich adroddiad Alps

Unwaith i chi dderbyn eich adroddiad dylech fod yn gofyn yn syth beth mae'r canlyniadau'n ei ddangos. Sut gaiff yr wybodaeth hon ei chynnwys o fewn adroddiadau asesiad/gwerthusiad ar gyfer llywodraethwyr a chyfranddalwyr eraill? Os ydych wedi archebu hyfforddiant Alps hwn yw'r amser delfrydol i drafod eich cyflawniad yn strategol gydag un o'n hymgyngorwyr.

Dechrau Medi - Gosodwch dargedau Gradd Isaf Ddisgwyliedig (MEG) ar gyfer eich myfyrwr

Gan ddefnyddio sgorau cyflawniad blaenorol eich myfyrwr, dylech fod yn gosod MEGS Alps uchelgeisiol ar gyfer bob myfyrwr o gychwyn cyntaf eu cyrsiau ym Medi.

Canol Medi – Archebwch adroddiad Monitro Pwynt Sero (MPZ) Alps

Adroddiad monitro arbennig yw hwn, a archebir ar gyfer eich myfyrwr sy'n dechrau Blwyddyn 13 ac sydd wedi'i seilio ar eu canlyniadau terfynol o Flwyddyn 12. Trwy gymharu perfformiad Uwch Gyfrannol (AS) (neu ragfynegiadau athrawon) yn erbyn y meincnod Safon Uwch, gallwch weld sut olwg fydd ar eich adroddiad Alps yr haf canlynol os yw eich myfyrwr yn cynnal eu graddau.

Hydref – Ailgyflwynwch eich data i Alps

Mae pob adroddiad Alps yn cynnwys un ailrediad rhad ac am ddim o'ch adroddiadau Alps. Mae hyn yn golygu y gallwch elwa o gyflymdra ein dadansoddiad ym Medi, wrth barhau i gaffael adroddiad sy'n adlewyrchu unrhyw newidiadau yn dilyn sylwadau neu apeliadau. Mae hwn, hefyd, yn amser delfrydol i archebu unrhyw adroddiadau ychwanegol fel Rhyw neu Ethnigrwydd.

Hydref i Fai – Monitwrwch gynnydd myfyrwr a chyflwynwch ddata monitro i Alps

Archebir adroddiadau Monitro Alps gan ysgolion a cholegau drwy gydol y flwyddyn. Maent ar gael ar gyfer pob un o'ch pwyntiau asesu mewnol allweddol (e.e. ar ôl ffug arholiadau). Maent yn cynnwys yr un lefel o fanylder â'n hadroddiad Darparwr diwedd y flwyddyn, ond fe'u seilir ar eich graddau asesu o fewn blwyddyn.

Mae'r uchod yn rhoi graddfa amser bosibl ond hoffem eich sicrhau y gellir gofyn am ein hadroddiadau a'n hyfforddiant ar yr adegau sydd fwyaf cyfleus ar gyfer eich model cwricwlwm.



IS 621807

KS4 & KS5 Performance Systems



The Student Centred Approach

PILERI ALPS - gan Martin Rostron



I Kevin Conway, sylfaenydd Alps, un o allweddï llwyddiant oedd cadw pethau'n syml. Yng Ngholeg Greenhead, lle'r oedd Kevin yn Bennaeth, roedd y symlrwydd hwn yn golygu annog staff a myfyrwyr i weithio tuag at nifer fach o dargedau clir a chyraeddadwy. Dilynwyd hyn gan raddau Ofsted rhagorol a chynnydd eithriadol gan fyfyrwyr. Mae'r symlrwydd hwn wedi'i blannu'n sownd yn Alps. Er gwaethaf holl rym a natur soffistigedig yr adroddiadau Alps, mae ein system ar ei mwyaf effeithiol pan ddefnyddir y dadansoddiad fel man cychwyn er mwyn cymhwyso tri syniad addysgol syml. Yn fynych, byddwn yn galw'r rhain yn 'Bileri Alps', ac maent yn ffurfio'r sylfeini y mae ein system hynod lwyddiannus yn sefyll arnynt.

Addysgu a Dysgu

Un o'r arfau mwyaf effeithiol a gynigiwn er mwyn cefnogi addysgu a dysgu yw ein 'Graddau Isaf Disgwyliedig' (MEG). Nid rhagfynegiadau na nenfydau mo'r rhain, ond dyheadau rhesymol y gall pob myfyrwr gael ei herio i'w cyflawni. Un o'r dulliau mwyaf effeithiol (a syml) o feddwl am y rhain yw bod angen gwybod dwy radd ar bob myfyrwr- eu MEG Alps a'u gradd rhagfynegiad cyfredol neu'r radd lle maent yn 'gweithio ar hyn o bryd'.

Cymorth a Chyfarwyddyd

Nodwedd allweddol o'n hadroddiadau yw'r Olwg Gyffredinol dros Gyflawniad Myfyrwr. Dengys hyn, ar gyfer bob myfyrwr, p'un ai ydynt yn cyflawni uwch ben, ar, neu islaw 'MEG' ym mhob un o'u pynciau. Mae hwn ar gael fel lawrlwythiad Excel ar wahân neu, o Hydref 2017, yn rhyngweithiol fel rhan o Alps Connect. Mae'n eich caniatáu i gynnal sgysiau athro/myfyrwr manwl ar ôl pob pwynt monitro - a all fod yn hanfodol o ran codi safonau.

Arweinyddiaeth

Gellir cyflawni addysgu a dysgu a chymorth a chyfarwyddyd eithriadol yn unig drwy arweinyddiaeth eithriadol ar bob lefel. Mae Alps yn cynorthwyo arweinwyr ysgol mewn llawer o ffyrdd. Ar gyfer Kevin, roedd arweinyddiaeth yn ymwneud â rhoi lle i staff ysgwyddo cyfrifoldeb a datblygu, ond heb fyth golli golwg ar y sefyllfa. Mae'r adroddiadau Monitro (a Connect - Monitro) a gynigir gan Alps yn cydweddu'n berffaith â hyn, gan ganiatáu i arweinwyr gadw llygad barcod ar gyflawniad ar draws yr ysgol neu goleg yn ei gyfarwydd, fesul pwnc ac ar lefel myfyrwyr.

DERBYNIWCH Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM ALPS

Mae mwy yn digwydd gydag Alps nag erioed o'r blaen. Yn 2016 bu inni gyflwyno ein hadroddiadau Cyfnod Allweddol 4 i gannoedd o ysgolion yn genedlaethol. O'r haf hwn, byddwn yn cynnig adroddiadau sy'n llwyr rhyngweithiol trwy Alps Connect. Rydym hefyd yn gweithio gyda niferoedd cynyddol o ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 5 - mae dros 1,600 wedi cymryd adroddiadau eleni. Rydym hefyd wedi darparu dros 700 o sesiynau hyfforddi ers Medi 2016.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous ar gyfer Alps - ac mae gennym nifer o ddulliau o'ch helpu i ddysgu am holl newyddion, datblygiadau a chyngor addysgol diweddaraf Alps.



Trydar

Gallwch ddilyn Alps ar Trydar @alpsva. Byddwn yn trydar ynghylch newyddion diweddaraf Alps a blogiau, cyfleoedd i fynychu hyfforddiant Alps a chyngor addysgol ar gyfer ein cydweithwyr mewn ysgolion a cholegau yn genedlaethol.



Gwefan

Gallwch edrych ar adroddiadau enghreifftiol, gwyllo ein fideos cymorth, darllen ein papurau cyfarwyddo neu astudiaethau achos a chanfod newyddion diweddaraf Alps ar-lein yn www.alps-va.co.uk



Blog Alps

Gallwch ddarllen y cyngor addysgol diweddaraf oddi wrth Alps ar flog Alps yn www.alps-va.co.uk/latest



E-bost

Gallwch ymuno â rhestr bostio Alps er mwyn derbyn y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau Alps, trwy gofrestru ar ein gwefan. Gallwch hefyd gysylltu â ni trwy anfon e-bost i info@alps-va.co.uk



Teleffon

Rydym yn croesawu'r cyfle i siarad â chydweithwyr mewn ysgolion a cholegau. Mae gennym dimau addysgol a chefnogi data un pwrpas ar y safle, sydd ar gael i ateb eich galwadau o 9 i 5, Llun i Wener



IS 621807

KS4 & KS5 Performance Systems

 Alps®

The Student Centred Approach

Alps > Llythyr Newyddion Gwanwyn 2017

CYNADLEDDAU CENEDLAETHOL MAWRTH

Ym Mawrth, cynaliasom ein Cynadleddau Cenedlaethol 2017. Cynhaliwyd y rhain yn Llundain, Leeds a Chaerdydd.

Roeddem yn falch iawn i groesawu dros 350 o ddirprwyon i'r tair dinas hon am gyfres o ddyddiau'n canolbwyntio ar rym Alps i wella cyfleoedd bywyd ar gyfer bob myfyriwr.

Fe'n plesiwyd yn aruthrol, yn ogystal, gyda'r ymatebion cychwynnol i Alps Connect.



Dyma ychydig yn unig o beth roedd gan ein dirprwyon i'w ddweud am y dydd:

"Golwg gyffredinol dda dros Alps a sut y gellir ei ddefnyddio i effeithio ar y cynnydd a wneir gan fyfyrwyr" Cowbridge Comprehensive School

"Cyflwyniadau ac adnoddau rhagorol – cyflwyniad gwych i Alps" Ysgol Bro Dinefwr

"Roedd hyfforddwyr yn wybodus a brwdfrydig iawn a oedd o gymorth wrth ddysgu cysyniadau newydd" Cardiff & Vale College

"Arddangosiad ffantastig o gyfrifiadau i'w defnyddio gyda staff" Fitzalan High School

"Cyflwyniad ymarferol, system rymus – mae angen i mi ystyried ac ymarfer beth a ddysgais" Coleg Sir Gar

"Roedd yn atgoffâd defnyddiol iawn o fethodoleg Alps a sut y gellir ei ddefnyddio i wella canlyniadau ar gyfer myfyrwyr" Ysgol Gyfun Ystalyfera

"Pob sesiwn yn ymarferol a defnyddiol" Gowerton School

"Dyma'r trydydd tro i mi fynychu Cynhadledd Genedlaethol Alps. Mae'n wych i ddod gan wybod ein bod wedi rhoi cynifer o strategaethau yn eu lle i helpu ein myfyrwyr. Mae cymaint bob amser y gallwn ei ddwyn ymaith" Cathays High School

HYFFORDDIANT ALPS

Un o'r pethau sy'n gwahaniaethu Alps yw ein gallu i gyfuno adroddiad graenus gyda gwerth ychwanegol â hyfforddiant sydd yr un mor raenus. Darperir ein holl hyfforddiant gan hyfforddwyr Alps profiadol sydd â phrofiad uniongyrchol o gyflawni canlyniadau eithriadol gydag Alps fel athrawon ac uwch arweinwyr rhai o'r ysgolion a cholegau mwyaf eithriadol yn y wlad. Cyfuno eich adroddiadau gyda hyfforddiant Alps yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau eich bod elwa i'r eithaf o'n system rymus, sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr.

Er mwyn dysgu mwy neu i archebu hyfforddiant Alps heddiw, ewch i www.alps-va.co.uk/booktraining



IS 621807

KS4 & KS5 Performance Systems



The Student Centred Approach